



Gwasanaeth Democraidd / Democratic Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW
BARMOUTH HARBOUR CONSULTATIVE COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

10.30 a.m. DYDD MAWRTH, 19 MAWRTH 2013

10.30 a.m. TUESDAY, 19 MARCH 2013

Lleoliad / Location

Theatr y Ddraig / Dragon Theatre

ABERMAW / BARMOUTH

Pwynt Cyswllt / Contact Point

GLYNDA O'BRIEN

✉: GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk

01341 424 301

Dosbarthwyd: 11.03.13

AELODAETH / MEMBERSHIP

Y Cyng. Gethin Glyn Williams	Aelod Tref Abermaw Member from Barmouth Town Council
Y Cyng. Louise Hughes	Aelod o Llangelynnin Member from Llangelynnin
Y Cyng. Eryl Jones-Williams	Aelod o Ddyffryn Ardudwy Member from Dyffryn Ardudwy
Y Cyng. R. A. Williams) Y Cyng. Lark Davies)	Aelodau o Gyngor Tref Abermaw Members of Barmouth Town Council
Y Cyng. Eric John Wilding	Aelod o Gyngor Cymuned Arthog Member of Arthog Community Council
Mr John Johnson	Aelod o Gymdeithas Pysgodfeydd Môr Abermaw a Bae Ceredigion Member of Barmouth and Cardigan Bay Sea Fisheries Association
Mr Llew Griffin	Aelod o Glwb Hwyllo Meirionnydd Member of Merioneth Yacht Club
Mr David Bailey	Aelod o Cymdeithas y Bad Achub Member of the Royal National Lifeboat Institution
Ms Wendy Ponsford	Aelod o Gymdeithas Defnyddwyr Harbwr a Moryd Abermaw Member of Barmouth Harbour & Estuary Users Association
Sylwedyddion / Observers:	
Y Cyng. / Cllr. R. J. Wright	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli / Pwllheli Harbour Consultative Committee
Dr J Jones Morris	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog / Porthmadog Consultative Harbour Committee
Cyng. /Cllr David Richardson	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi / Aberdyfi Consultative Harbour Committee

R H A G L E N

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgan Cysylltiad Personol**

3. **Cofnodion**

I dderbyn a nodi cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar y 16 Hydref 2012.

(Atodiad 1 - Papur Gwyn)

4. **Adroddiad y Swyddog Morwrol**

I dderbyn ac ystyried adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies.

(Atodiad 2 - Papur Gwyrdd)

5. **Materion i'w hystyried ar gais aelodau o'r Pwyllgor Ymgynghorol**

(i) I dderbyn adroddiadau llafar gan y swyddogion priodol ar y materion canlynol:

- (a) Lithrfa newydd
- (b) Rheolaeth ac arwyddion o amgylch y Pontwn. Rhestr Gwaith Cynnal a Chadw
- (c) Meinciau Picnic ac ardal lwytho
- (d) Cloeon
- (e) Adeilad y Dora a Siediau Aberamffra
- (f) Gwaith ar y bont
- (g) Angorfeydd
- (h) Gwirfoddolwyr
- (i) Symud Tywod
- (j) Cynllun Datblygu'r Harbwr
- (k) Materion Iechyd a Diogelwch
- (l) Adroddiad cynnydd ar y cyfarfod a gynhaliwyd rhwng yr Aelod Lleol, yr Aelod Cabinet a'r swyddogion
- (m) Consesiynau
- (n) Adroddiad ar y Cynllun Rheolaeth Cyrchfan
- (o) Y Faner Las
- (p) Y Fferi

(ii) I dderbyn adroddiad gan Mr John Smith, Aelod o'r Grwp Datblygu, ar ddatblygiadau'r Harbwr.

6. **Dyddiad Cyfarfod Nesaf**

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar ddydd Mawrth, 21 Hydref 2013.

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
gynhaliwyd ar 16 Hydref 2012 ym Mharlwr Bach, Theatr y Ddraig, Abermaw**

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Eryl Jones-Williams, Louise Hughes (Cyngor Gwynedd), Cyng. Lark Davies, R. A. Williams, (Cyngor Tref Abermaw), Cyng. Eric Wilding (Cyngor Cymuned Arthog), Mrs. Wendy Ponsford (Cymdeithas Defnyddwyr Harbwr a Moryd Abermaw), Mr Denis Howell (Clwb Hwyllo Meirionnydd), Mr John Johnson (Cymdeithas Pysgodfeydd Môr Abermaw a Bae Ceredigion).

Swyddogion

Mr Barry Davies	-	Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig
Mr Ken Fitzpatrick	-	Swyddog Morwrol Harbyrau
Glyn Jones	-	Harbwr Feistr
Mrs Glynda O'Brien	-	Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu

Ymddiheuriadau: Y Cyngorydd Gethin Williams (Cyngor Gwynedd) a Huw Davies (Prif Beiriannydd).

1. ETHOL CADEIRYDD

Yn ei absenoldeb, cynigwyd ac eiliwyd i enwebu'r Cyngorydd Gethin Williams fel Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol hwn am y flwyddyn 2012-13.

Oherwydd nad oedd y Cyngorydd Gethin Williams yn bresennol, cynigwyd ac eiliwyd i ethol y Cyngorydd Eryl Jones-Williams i'r Gadair am y cyfarfod hwn yn unig.

Penderfynwyd: (a) Ethol y Cyngorydd Gethin Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol hwn am y flwyddyn 2012-13.

(b) Ethol y Cyngorydd Eryl Jones-Williams yn Gadeirydd i'r cyfarfod hwn yn unig.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Penderfynwyd: Ethol y Cyngorydd Eric Wilding yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol hwn am y flwyddyn 2012-13.

3. TEYRNGED

Cymerodd y Cadeirydd, y Cyngorydd Eryl Jones-Williams, y cyfle i dalu teyrnged i gyn Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol hwn, sef y cyn Cyngorydd Trevor Roberts am ei wasanaeth a'i ymroddiad i'r swydd am flynyddoedd lawer. Gofynnwyd i'r Swyddog Cefnogi Aelodau anfon gair ato i gyfleu diolchiadau'r Pwyllgor Ymgynghorol a'r Gwasanaeth Morwrol iddo am ei waith clodwiw a'i gefnogaeth barod i weithgareddau'r Harbwr yn Abermaw tra'n gwasanaethu fel Cadeirydd y Pwyllgor a dymuno'n dda iddo i'r dyfodol.

Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Cefnogi Aelodau mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig anfon gair i'r cyn Cyngorydd Trevor Roberts fel amlinellir uchod.

4. DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL

Ni dderbyniwyd datgan o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. COFNODION

Cyflwynwyd: Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2012 yn ddarostyngedig i'r cywiriad isod:

Eitem 3 (iii) (d) – Tudalen 4

Newid y gair “reviewed” i “renewed” yn y cyfieithiad Saesneg fel bod y frawddeg yn darllen ...”that she trusted that this would not be renewed in light of her concern that more boats would be lost from Barmouth”.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

5. ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL

Cyn cyflwyno ei adroddiad, ymddiheurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig am ffurf yr adroddiad gan egluro mai diffyg capasiti a phwysau gwaith yn y gwasanaeth oedd yn gyfrifol am hyn. Pwysleisiodd mai prif amcan y Pwyllgor Ymgynghorol hwn ydoedd ymgynghori ynglŷn â'r gweithrediadau sydd i ddigwydd yn yr Harbwr i'r dyfodol. Dylid ymdrin ag unrhyw broblemau dydd i ddydd drwy gysylltu â'r swyddogion perthnasol ar y cyfle cyntaf.

Cyflwynwyd: Adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Abermaw gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-

(i) **Mordwyo ac Angorfeydd**

(a) Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig at Gôd Diogelwch Harbyrau a gyhoeddwyd yn 2003 a fyddai'n cael ei adolygu yn y dyfodol agos gyda chopi drafft diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn ym mis Mawrth 2013. Byddir yn edrych ar yr elfennau hynny yn ymwneud â'r harbyrau ac y byddai'r Côd yn cael ei archwilio gan berson annibynnol. Rhaid adnabod Daliwr Dyletswydd ac yn deillio o'r drefn llywodraethu newydd y Cyngor, mae'n debygol y bydd y cyfrifoldeb hwn yn disgyn i'r Cabinet. Nodwyd bod Swyddog Iechyd a Diogelwch y Gwasanaeth yn archwilio'r Harbyrau i gwblhau asesiadau gan adrodd yn ôl i'r Gwasanaeth Morwrol ar yr hyn sydd ei weithredu arnynt. Fe fyddir yn cynnal asesiad yn Abermaw yn fuan.

(b) Gofynnwyd a fyddai modd i'r holl Aelodau dderbyn y Côt o leiaf mis ymlaen llaw cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol ym mis Mawrth fel bo modd iddynt fedru nodi unrhyw bryderon sydd ganddynt.

(c) Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd y Côt ar safle We'r Cyngor ac yn anffodus, er i'r Gwasanaeth ofyn ers rhai blynnyddoedd bellach am ran neilltuol ar gyfer deunyddiau morwrol megis canllawiau, ffurflenni cofrestru, ffioedd, rheoliadau a.y.b.

(ch) Yn sgil yr uchod, awgrymodd Aelod i'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn gefnogi cais y Gwasanaeth Morwrol am adnoddau / cymorth i'w galluogi i roddi deunyddiau ar y We mewn man neilltuol.

(d) Nodwyd bod y cymhorthion mordwyo wedi aros ar eu safle ac ni dderbyniwyd sylwadau negyddol gan Dŷ'r Drindod yn dilyn eu harchwiliad blynyddol. Bu'n rhaid gwario £2,700 allan o'r gyllideb Harbwr i osod Bwi'r Clwyd ac fe nodwyd gan y defnyddwyr a oedd yn bresennol ei fod yn gweithio'n llwyddiannus. Parheir i golli bwiau parth traethau pan ddônt i'r lan, oddeutu 33 ar hyd yr arfordir ym Meirionnydd, ac o ganlyniad roedd y Gwasanaeth yn gorfod ysgwyddo'r gost. Penderfynwyd treialu heb y cymhorthion hyn yn ardal Fairbourne a thraeth Abermaw oherwydd gan amlaf ar lanw uchel roedd y bwiau mor bell o'r lan ac felly yn cael ychydig o effaith ac o werth i forwyr. Golygai'r parthau, o dan yr Is-ddeddfau na chaniateir morio mwy na 6 milltir yr awr o fewn yr ardal waharddedig.

(dd) Mewn ymateb i'r uchod, nododd Aelod ei bryder o'u tynnu oherwydd ansicrwydd o'r llinell derfyn a'r posibilrwydd i gychod ddod ar draws ymdrochwyr. Ni ellir adrodd ynglŷn â'r effaith a gafwyd drwy dynnu'r bwiau parth traethau oherwydd flwyddyn ddiwethaf ni chafwyd lawer o ddyddiau braf lle gwelwyd nifer o ymwelwyr ar y traeth ac felly nid oedd hyn yn ddangosydd teg o'r sefyllfa. Ychwanegodd Aelod bod y bwiau hyn yn ei wneud yn haws i reoli.

(e) Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddir yn monitro'r sefyllfa yn y flwyddyn nesaf ond pwysleisiodd nad oedd y Gwasanaeth yn hyrwyddo'r môr ar gyfer nofio o ystyried yr holl sydd yn boddi.

(f) Profwyd anawsterau gyda'r contractwr angorfeydd oherwydd, yn dilyn archwiliad, nad oedd ei gwch a cherbydau yn cydymffurfio gyda chanllawiau priodol y Gweithgor Iechyd a Diogelwch a Gwylwyr y Glannau. Fodd bynnag, yn dilyn adroddiadau / archwiliadau pellach, hyderir y byddir yn derbyn cadarnhad a thystysgrifau perthnasol yn yr wythnos nesaf bod y cwch yn addas ar gyfer y pwrpas.

(ff) Rhaid sicrhau dros y misoedd nesaf bod yr holl angorfeydd yn safonol. Drwy drafodaeth gyda'r Aelod Lleol, penderfynwyd sefydlu 5 angorfa bwrpasol newydd yn yr Harbwr a phe bai unrhyw unigolyn angen angorfa ychwanegol byddai'n rhaid iddynt drafod yn uniongyrchol gyda'r contractwr angorfeydd gyda chyfrifoldeb gan yr Harbwr Feistr i gyfarwyddo'r lleoliad. Hyderir i'r dyfodol sef o 2013 ymlaen y bydd gwell trefniadau mewn lle cyn belled a bo cynnal a chadw'r angorfeydd yn y cwestiwn. Rhaid derbyn tystysgrif briodol ar gyfer pob un angorfa unai gan y contractwr neu berchennog yr angorfa.

Penderfynwyd: (a) Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig anfon y Cod Diogelwch Harbwr i'r Aelodau o leiaf mis ymlaen llaw cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol hwn ym mis Mawrth fel bo modd iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau.

(b) Cyfleu i'r Aelod Cabinet gefnogaeth y Pwyllgor Ymgynghorol i'r Gwasanaeth Morwrol dderbyn adnoddau / cymorth i sefydlu rhan ar y Wefan i fedru gosod gwybodaeth / deunyddiau'r Gwasanaeth.

(c) Bod Aelodau Lleol yn cadw golwg ac yn cysylltu â'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig pe cyfyd unrhyw broblem o ganlyniad i beidio gosod y bwiau traeth.

(ii) Trwyddedau Perchnogion a Cychwyr

(a) Ni phrofwyd problemau gyda gweithredwyr yr ysgraff eleni fel y profwyd yn y gorffennol. Atgoffwyd yr Aelodau o'r angen i gydymffurfio â thelerau trwyddedau perchnogion a cychwyr. Treuliwyd oriau lawer gan staff y Gwasanaeth Morwrol i gasglu tystiolaeth i ddatrys y cyhuddiadau gan weithredwyr y ddwy ysgraff yn erbyn y naill a'r llall o beidio cydymffurfio hefo gofynion y drwydded. Ymgwymerwyd ag archwiliadau cudd ond ni welwyd unrhyw gwch yn

gweithredu mewn modd a fyddai'n peri pryder ac 'roedd staff y Gwasanaeth Morwrol yn ffyddiog eu bod yn gweithredu'n ddiogel. Nodwyd bod diogelwch teithwyr o'r pwysigrwydd pennaf a dylai pob Capten fod yn sicr fod cyflwr y tywydd ar y pryd yn ffafriol i'r daith sydd i'w chymryd. Pwysleisiwyd mai cyfrifoldeb Capten y cwch a fu wedi ei drwyddedu ydoedd hyn ac ni fedrai'r Uned Forwrol fod ar gael pedair awr ar hugain fel gwasanaeth i gymryd penderfyniad ynglŷn â diffiniad o "dywydd ffafriol".

Nodwyd yn deillio o ddigwyddiad a fu yn ystod yr haf eleni yn ymwneud ag un o weithredwyr yr ysgraff bod dyfarniad achos Llys i'w gadarnhau maes o law ac y byddir yn gweithredu ar unrhyw ddyfarniad wedi hynny.

(b) Nododd Aelod ei bod yn biti bod achosion o'r fath yn digwydd ac yn creu llawer iawn o waith diangen i staff yr Uned Forwrol.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(iii) Ystadegau Morwrol

Cyfeiriwyd at yr atodiadau oedd ynghlwm i'r rhaglen yn nodi cymariaethau o gychod, ystadegau angorfeydd a chychod pŵer a chychod hwyllo. Gwelwyd gostyngiad yn y nifer o gychod yn Harbwr Abermaw i 91 eleni. Rhaid pwysu a mesur effaith hyn a'i fod yn adlewyrchiad o sefyllfa'r economi ehangach sydd yn y diwydiant morwrol ar hyn o bryd. Ni welir cynlluniau i ddatblygu Marinas fel oedd rhyw 3 / 4 blynedd yn ôl ac roedd costau uchel tanwydd, yswiriant, a thywydd anffafriol gydol yr haf yn cyfrannu at effaith y farchnad.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(iv) Cyllidebau Harbyrau

Cyflwynwyd i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod

(a) gyllidebau terfynol Harbwr Abermaw hyd ddiwedd y flwyddyn 2011/12 gan eu tywys drwy'r wahanol benawdau. Gwelwyd cyfanswm gostau staffio o £46,680 gyda thanwariant o £-9,203.41 a hynny oherwydd cyflogir un swydd am hanner y tymor yn hytrach na dwy. O safbwynt rheoli'r Harbwr o ddydd i ddydd gwelir £10,000 o gyllideb gyda £21,000 wedi ei wario hyd yma a gorwariant o £11,557. Cyfeiriwyd at y targedau incwm a oedd yn dangos gorwariant o oddeutu £17,000 flwyddyn ddiwethaf ac y byddai'n rhaid darganfod yr arian hwn o fewn meysydd eraill o fewn y Gwasanaeth Morwrol.

(b) gyllidebau cyfredol hyd ddiwedd Medi 2012 gan dynnu sylw at darged o £46,723 gyda thanwariant o £1,619.39 a hynny oherwydd cyflogwyd 1½ swydd yn hytrach na 2 swydd barhaol. Gwelwyd o'r ffigyrau gerbron bod oddeutu £9,000 wedi ei wario o'r gyllideb o £10,000 gyda £1,185.72 ar ôl i'w wario rhwng Medi 2012 a diwedd Mawrth 2013. Allan o'r gyllideb byddai'n rhaid talu am ysgolion newydd yn y swm o £4,800; pwmp newydd i'r disel coch ar gost o £4,500. Ar sail ffigyrau diwedd Medi felly gwelir diffyg yn y targed incwm o oddeutu £10,000. Cyfeiriwyd at y targed incwm o £48,360 a hyd at ddiwedd Medi casglwyd £33,481.52 gyda £14,878.48 yn fyr o'r targed incwm.

(c) gyllidebau yn dangos targedau incwm Harbwr Aberdyfi o ran cymhariaeth.

(c) Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddir yn argraffu'r Tablau Llanw eto eleni ym mis Tachwedd ond byddir yn lleihau'r niferoedd oherwydd cost yr hawl i'w cyhoeddi gan Proudman a'u hargraffu gan yr Uned Argraffu.

(ch) Nododd y Cadeirydd bod y Cyngor wedi gwneud elw o oddeutu £150,000 drwy werthu asedau yn Abermaw a thrueni nad oedd cyfran o'r elw hwn yn cael ei fuddsoddi yn ôl i Abermaw.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(v) Digwyddiadau

(a) Fe fyddir yn cynnal cyfarfod yn gynnar yn 2013 gyda threfnwyr Ras y Tri Chopa i sicrhau bod trefniadau mewn lle ar gyfer y gystadleuaeth ar 15 Mehefin 2013.

(b) Hyderir y bydd Penwythnos Regata Ceufadau yn cael ei gynnal yn 2013 ac y bydd yn achlysur parhaol i Abermaw.

(c) Nodwyd bod y Cyngor yn ymgynghori ar hyn o bryd i'r posibilrwydd o gael Gorchymyn Cŵn i Wynedd gyfan. Cynigir addasiad i'r Gorchymyn i gynnwys un ardal waharddedig i gwn ar draeth Abermaw. Roedd hyn yn bwysig o safbwynt gwobr y Faner Las er mwyn rheoli baw cwn ac fe roddai'r Gorchymyn fwy o bwerau pan ddaw i rym ar 1 Ebrill i swyddogion fedru rhoi dirwy i berchnogion cwn sydd yn mynd ar rannau gwaharddedig o'r traeth.

(ch) Cyflwynir canlyniadau dŵr ymdrochi traeth Abermaw i'r Pwyllgor Ymgynghorol yn ei gyfarfod ym mis Mawrth. Nodwyd nad oedd dim i bryderu ar hyn o bryd ond fe nodwyd y byddai'r safonau yn llawer mwy caeth a rhagwelir llawer llai o wobrau Baneri Glas yng Ngwynedd a Chymru i'r dyfodol.

(ch) Nododd Aelod ei fod yn embaras i Fairbourne eleni oherwydd diffyg y Faner Las a'r polyn i'w chwifio.

(d) Mewn ymateb i'r uchod, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai gwobr Baner Werdd yn fwy addas i ardal wledig fel Fairbourne. Sicrhawyd y byddai'r polyn baner yn cael ei osod yn ôl ar gyfer tymor nesaf ond nodwyd bod anawsterau gyda thraethau gwledig megis Fairbourne i fedru gosod caban pwrpasol a chyflogi goruchwyliwr traeth am 6 diwrnod o'r wythnos. Roedd ceisiadau gwobrau traeth yn costio £600 yr un i'r Gwasanaeth Harbwr, a hynny heb gyllideb wedi ei neilltuo ar ei gyfer. Bwriedir ysgrifennu at y Cynghorau Tref / Cymuned i wneud cais iddynt ystyried ysgwyddo'r gost hon. Ychwanegwyd bod y Gwasanaeth Morwrol wedi buddsoddi £40,000 er datblygu llwybr yn Fairbourne yn ddiweddar.

(dd) Cynhelir y Motorcross ddiwedd mis Hydref yn Abermaw a hyderir y bydd y trefnwyr yn cydymffurfio gyda gofynion parthed peiriannau trwm ar y traeth fel na fyddir yn malurio'r twyni tywod wrth ymyl y morglawdd.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(vi) Goddefiadau a Gwelliannau

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig:

(a) nad oedd yn ymwybodol os ydoedd Cysgodfa'r Promenâd yn cael ei ddymchwel oherwydd bod ei berchnogaeth wedi ei drosglwyddo i wasanaeth arall o fewn y Cyngor.

(b) Ni ellir i'r dyfodol ysgwyddo'r gost o glirio'r Storfa Forwrol a thafodwyd yn ddiweddar gyda'r Aelod lleol y posibilrwydd o ddarparu cynllun gwell ar gyfer ei reoli.

- (c) Bod y Gwasanaeth Morwrol wedi buddsoddi £4,700 er gwella ysgolion yn ddiweddar ac fe ystyrir ymhellach cais i roi ffenders ar y tu allan. Y broblem ydoedd cychod yn eu difrodi.
- (d) Nad oedd cytundeb ffurfiol ynglyn â pherchnogaeth ac yswirio'r Pontŵn. Nodwyd bod y Gwasanaeth Morwrol wedi cydweithio gyda'r Clwb Hwyllo i sicrhau cyllideb i'w brynu ac roedd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig o'r farn bod y Pontŵn yn mherchnogaeth y Clwb Hwyllo. Nodwyd ymhellach bod yr Harbwr Feistr yn gyfrifol am reolaeth y Pontŵn ac yn gyfrifol am gasglu ffioedd. Hyderir y byddir yn trafod y mater ymhellach dros fisoedd y gaeaf. Mewn ymateb, nododd cynrychiolydd o'r Clwb Hwyllo nad oedd y Clwb yn berchen y pontŵn ond yn hytrach yn gyfrifol am hwyluso'r cais ariannol ar ran y gymuned. Byddai'n rhaid hefyd trafod ac ymdrin â gosod arwyddion dwyieithog wrth ymyl y pontŵn.
- (e) Bod gwell rheolaeth o Ardal Harbwr Aberamffra.
- (f) Hyderir na fyddir yn profi anawsterau fel yn y gorffennol gyda chonsesiynau'r traeth a'r promenâd. Derbyniwyd cais am gonsesiwn llogi cadeiriau glan y môr yn ychwanegol.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(vii) Diogelwch Offer Morol

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod yr Heddlu yn awyddus i gylchredeg y ffurflen Cofrestru Gwarchod Morol (a oedd ynghlwm i'r Rhaglen) yn sgil lladrad o dri pheiriant yn Aberdyfi yn ddiweddar. Fe fyddai'r ffurflen yn cael ei hanfon i bob perchennog cwch fel bo'r Heddlu yn gallu monitro perchnogaeth i'r dyfodol.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(viii) Staff Harbwr

Penodwyd unigolyn brwdfrydig iawn yn Gymhorthydd Harbwr o 1af Ebrill hyd at 30 Medi 2012 a hyderir y gellir ail-benodi eto flwyddyn nesaf. O safbwynt staffio yn ystod y gaeaf, bydd gofyn i Harbwr Feistr Aberdyfi gynorthwyo yn Abermaw ac yn yr un modd bydd disgwyl i Harbwr Feistr Abermaw gynorthwyo yn Aberdyfi.

Fe fyddir yn cylchredeg y rhaglen waith cynnal a chadw yn y pythefnos nesaf i'r holl aelodau.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod gan sicrhau bod y rhaglen waith yn cael ei chylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ffurf E-bost maes o law.

6. MATERION A GYFLWYNWYD GAN AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

(a) Statws Harbwr Gweithio

Sicrhodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd unrhyw newid i statws Harbwr Abermaw a'i fod yn gweithredu yn unol â chanllawiau'r ddeddf.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

- (b) **Rheolaeth ac arwyddion o amgylch y Pontŵn. Angen cynigion ysgrifenedig i reoli'r ardal a rhai iechyd a diogelwch / asesiad risg.**

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ni fyddai'r pontŵn yn cael ei gynnwys yn y Côt Diogelwch Harbwr ac mai asesiad risg syml a gyflawnir gan yr Uned Forwrol. Roedd y pontŵn wedi cael ei adeiladu i safon ddisgwyliedig ac oherwydd nad oedd y pontŵn ym mherchnogaeth y Gwasanaeth Morwrol ni fyddai'r Gwasanaeth yn gyfrifol am gwblhau asesiad risg.

Mynegodd Aelod ei phryder bod unigolion yn pysgota crancod oddi ar y pontŵn ac y dylid trafod y mater ymhellach ynglyn â chael arwyddion pwrpasol yno i'w gwahardd rhag gwneud hyn er mwyn cadw rheolaeth pan fu cychod yn dod i mewn ac allan.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglyn â thynnu bysedd y pontŵn, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddir yn trafod hyn hefo'r rhai a gyflwynwyd y cais.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod ac addawodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y bydd arwyddion yn cael eu gosod yn yr wythnosau nesaf.

(c) Cychod craidd caled / mynediad i lwytho a dadlwytho

Nododd Aelod ei bod yn anodd i gychod lwytho a dadlwytho o'r Harbwr tra'n derbyn bod y pontŵn wedi ei wneud yn anoddach.

Mewn ymateb, tra'n cytuno â'r sylw nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei bod yn anodd cadw rheolaeth oherwydd bod llawer o fynd a dod yn yr ardal yma o gefn y toiledau. Os neilltuir y rhan yma o'r Harbwr ar gyfer llwytho a dadlwytho byddai'n rhaid sicrhau ffens diogelwch o amgylch oddi amgylch unrhyw gerbyd sydd yn dadlwytho yn yr ardal yma fel nad oes unrhyw risg i'r cyhoedd. Addawodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n trafod y mater ymhellach gyda'i gyd-swyddogion ond roedd yn ffafrio'r ardal gaeafu cychod fel ardal i lwytho a dadlwytho. Roedd Ardal Aberamffra hefyd yn ardal wych i lwytho a dadlwytho.

Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig drafod y mater uchod ymhellach gyda'r swyddogion perthnasol.

(ch) Rheoli Gwastraff

Nodwyd nad oedd yr ardal i waredu gwastraff olew yn safle hygrych ac yn enwedig ar fin nos a phenwythnosau.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddir yn trafod y mater ymhellach gyda'r swyddogion a phwysleisiwyd pwysigrwydd bod yn rhaid cael darpariaeth mewn lle i fedru gwaredu deunyddiau megis batris asid, ffilteri, gwastraff cyffredin a gwastraff olew. Efallai mai'r ffordd ymlaen fyddai i forwyr adael caniau olew allan gyda'r Harbwr Feistr yn eu casglu i'w waredu i'r tanc.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(d) Trwyn Fairbourne

Adroddwyd gan aelodau bod nifer o faniau gwersylla yn parcio dros nos ym Mhwynt Fairbourne ac yn cymryd drosodd yr ardal lle caniateir lansio cychod. Dros Ŵyl y banc roedd oddeutu 13 o faniau yno ac oddeutu 18 o gychod ac yn lansio yn rhad ac am ddim. Yn ogystal, nid oes cyfleusterau toiledau iddynt ac yn aml maent yn gadael ysbwriel ar eu hôl.

Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd gan y Gwasanaeth reolaeth dros barcio yn y fan hyn ac nad oedd y broblem hon yn unigryw i Fairbourne gan ei fod yn digwydd mewn rhannau eraill o'r arfordir. Tra'n derbyn bod y tir wrth ochr y môr yn gyfrifoldeb y Gwasanaeth Morwrol, ni ellir cyfarwyddo swyddogion i oruchwyllo'r ardal hon gan nad oedd ganddynt bwerau i wneud hynny.

Awgrymodd y Cadeirydd i'r Aelod Lleol godi'r mater gyda'r Cyngor Cymuned a gwahodd swyddog o Adran Briffyrdd y Cyngor i'r cyfarfod a'r Heddlu i drafod y ffordd orau ymlaen.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(dd) Cynllun clir i ymdrin â thywod

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod trafodaethau cychwynnol wedi digwydd ynglyn â'r uchod a bod yr Uwch Reolwr Gwastraff a Chomisiynu yn trafod y mater gyda'r Aelod Lleol.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(e) Iechyd a Diogelwch – cefnogaeth i ail-agor llithrfa'r morglawdd i gael gwell mynediad i'r dŵr

(i) Nodwyd bod yr Aelod Lleol yn awyddus i agor mynediad newydd i ardal y baddon. I wneud hyn byddai'n angenrheidiol tynnu oddeutu 6 - 10 medr o'r wal er mwyn agor bwlch. Bwriedir trafod hyn ymhellach gyda'r Uned Briffyrdd ac fe nodwyd ymhellach yr angen am drafodaeth yn y Cyngor Tref hefyd. Pwysleisiwyd yr angen i gael sicrwydd am ddiogelwch y cyhoedd pe byddir yn gwneud hyn.

(ii) Adroddodd cynrychiolydd defnyddwyr yr Harbwr ei bod yn deall nad oedd y Contractwr yn hapus â'r uchod ond roedd y defnyddwyr yn awyddus i ganfod ffynonellau arian ar gyfer cynllun i agor llithrfa gyferbyn â'r Clwb Hwyllo. Ychwanegwyd bod angen trafodaethau pellach gyda'r contractwr a'r partiion perthnasol.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(f) Cyllidebau / targedau incwm

Adroddwyd bod yr Aelod Lleol yn awyddus i drafod gyda swyddogion a'r Aelodau Cabinet perthnasol cyllidebau a chydweithio cydrhwng adrannau a syniadau ynglyn a chodi incwm yr Harbwr.

Penderfynwyd: Cyfleu cefnogaeth y Pwyllgor Ymgynghorol hwn i awgrym yr Aelod Lleol.

7. ETHOL SYLWEDYDDION

Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd Gethin Williams i wasanaethu fel sylwedydd ar y canlynol:

- (a) Pwyllgor Ymgynghorol Aberdyfi**
- (b) Pwyllgor Ymgynghorol Porthmadog**
- (c) Pwyllgor Ymgynghorol Pwllheli**

8. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Adroddwyd: Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol hwn ar ddydd Mawrth, 19 Mawrth 2013.

Penderfynwyd **Derbyn a nodi'r uchod**

CADEIRYDD

***Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr
Abermaw
Harbour Consultative Committee***

19 Mawrth / March 2013

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig – Crynodeb o'r eitemau i'w trafod.

Maritime and Country Parks Unit – Summary of items for discussion.

***1. Mordwyo ac Angorfeydd
Navigation and Moorings***

- Cod Diogelwch Harbyrau / Port Marine Safety Code
- Cymhorthion Mordwyo / Aids to Navigation
- Bwiau Parth Traethau / Beach Zone Markers
- Cynnal Angorfeydd / Mooring Maintenance
- Costau Cynnal a Chadw / Cost of Maintenance
- Archwiliadau Tŷ'r Drindod / Trinity House Inspections

***2. Trwyddedau Perchenogion a Cychwyr
Proprietor's and Boatman's Licenses***

- Telerau'r Trwyddedau / Terms of License
- Sylwadau Ysgraff 2012 / Ferry Observations 2012
- Trefniadau Trwyddedu 2013 / 2013 License Arrangements
- Archwiliadau Syrfewr 2013/ Surveyor Inspection 2013
- Man Hwyllo a Glanio / Embarkation and Disembarkation Point

***3. Ystadegau Morwrol
Maritime Unit Statistics***

- Ystadegau Angorfeydd Harbwr / Harbour Mooring Statistics
- Ystadegau Harbyrau Eraill / Other Harbour Statistics
- Ystadegau Cyffredinol / General Statistics

***4. Cyllidebau Harbyrau
Harbour Budgets***

- Targedau Cyllideb Cyfredol 2012-13 / 2012-13 Budget Targets
- Gwariant ac Incwm Cyfredol at Diwedd Chwefror / Current Expenditure and Income to end of February
- Adolygiad Chwarter Tri / Third Quarter Review
- Ffioedd Angorfeydd Arfaethedig 2013 Proposed Fees and Charges

***Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr
Abermaw
Harbour Consultative Committee***

19 Mawrth / March 2013

***5. Digwyddiadau
Events***

- Ras y Tri Pigyn / Three Peaks Yacht Race 2013
- Penwythnos Regata Ceufadau / Canoeing Regatta Weekend
- Gwobr Traeth / Beach Award
- Ansawdd Dwr Ymdrochi 2012 Bathing Water Quality
- Ymgynghoriad Gorchymun Cwn / Dog Control Orders Consultation

***6. Goddefiadau a Gwelliannau
Concessions and Improvements***

- Gwaredu a Diogelwch Tan Gwyllt / Disposal and Safety of Pyrotechnics
- Storfa Morwrol / Maritime Compound
- Ysgolion Harbwr / Harbour Ladders
- Rheolaeth Pontŵn / Pontoon Management
- Ardal Harbwr Aberamffra Harbour Area
- Goddefiadau Traeth a Promenâd / Beach and Promenade Concessions
- Symudiadau Tywod Gwanwyn 2013 Sand Movements
- Cynnal a Chadw Llithfeydd / Slipway Maintenance

7. Staff Harbwr / Harbour Staff

- Trefniadau Gwanwyn/Haf 2013 – Spring/Summer Arrangements 2013
- Rhaglen Waith Cynnal a Chadw 2013 Maintenance Works Programme

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit

Cyfanswm wedi Cofrestru Cychod Pŵer - Total number of Powerboat Registrations

<i>Blwyddyn Year</i>	<i>Harbwr Aberdyfi</i>	<i>Harbwr Abermaw</i>	<i>Harbwr Porthmadog</i>	<i>Harbwr Pwllheli</i>	<i>Morfa Bychan</i>	<i>Traethau Gwynedd</i>	<i>Swyddfa Office</i>	<i>Cyfanswm Total</i>
2005	82	125	120	239	56	184 Abersoch	137	943
2006	80	121	58	199	80	187 Abersoch	332	1057
2007	45	111	39	183	46	102 Abersoch 8 Machroes 40 Trefor	617	1191
2008	37 Harbwr 3 Tywyn	92	30	147	25	65 Abersoch a Machroes 18 Trefor	659	1076
2009	47 Harbwr 1 Tywyn	81 Abermaw 24 Caerddaniel	26	123	30	95 Abersoch 15 Machroes 29 Trefor	702	1173
2010	37 Harbwr 0 Tywyn	112 Abermaw 16 Caerddaniel	28	160	32	110 Abersoch 17 Machroes 90 Warren 18 Trefor 17 Nefyn 38 Morfa Nefyn	714	1389
2011	25 Harbwr 1 Tywyn	63 Abermaw 7 Caerddaniel	24	150	29	62 Abersoch 12 Machroes 12 Warren 31 Trefor 6 Nefyn 46 Morfa Nefyn	701	1169
2012	23 Harbwr 4 Tywyn	48 Abermaw 18 Caerddaniel	23	23	8	70 Abersoch 4 Machroes 13 Trefor 14 Nefyn 25 Morfa Nefyn	595	868

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit

Cyfanswm wedi Cofrestru Badau Dwr Personol - Total number of Personal Watercraft Registrations

<i>Blwyddyn Year</i>	<i>Harbwr Aberdyfi</i>	<i>Harbwr Abermaw</i>	<i>Harbwr Porthmadog</i>	<i>Harbwr Pwllheli</i>	<i>Morfa Bychan</i>	<i>Traethau Gwynedd</i>	<i>Swyddfa Office</i>	<i>Cyfanswm Total</i>
2005	56	153	416	162	-	-	408	1195
2006	51	148	136	108	230	136 Abersoch	399	1208
2007	31	111	66	79	175	90 Abersoch 11 Machroes 6 Trefor	471	1040
2008	32	79	46	68	150	91 Abersoch a Machroes 2 Trefor	403	871
2009	27 Aberdyfi 3 Tywyn	69 Abermaw 18 Caerddaniel	45	51	185	107 Abersoch 8 Machroes	374	892
2010	27 Aberdyfi	83 Abermaw 17 Caerddaniel	39	63	201	99 Abersoch 3 Machroes 22 Warren 1 Trefor 1 Nefyn 9 Morfa Nefyn	400	965
2011	23 Aberdyfi	39 Abermaw 3 Caerddaniel	51	65	168	71 Abersoch 3 Machroes 9 Warren 3 Nefyn 8 Morfa Nefyn	382	825
2012	9	37 Abermaw 7 Caerddaniel	24	7	86	53 Abersoch 2 Machroes 1 Trefor 3 Nefyn 6 Morfa Nefyn	390	625

DG54 - Harbwr Abermaw

Type	Account	Disgrifiad	Budget 2	Addasiad	Budget 1	Actuals	Gweddill	mrwymadau	
AGWE	0130	Gweithwyr Gpt & Ch - Cyffred	40,000	-780	39,220	17,781	-21,439	6,490	-14,949
	0150	Gweithwyr Llaw	0	0	0	8,918	8,918		8,918
	0230	Gweithwyr Gpt & Ch - Cyffred	3,130	-67	3,063	1,690	-1,373		-1,373
	0250	Gweithwyr Llaw	0	0	0	505	505		505
	0330	Gweithwyr Gpt & Ch - Cyffred	3,590	-70	3,520	0	-3,520		-3,520
	0350	Gweithwyr Llaw	0	0	0	1,801	1,801		1,801
	0601	Pensiwn A Dalwyd	540	0	540	429	-111	143	32
	0709	Tanysg I Gyrrff Proffesiynol	50	0	50	0	-50		-50
	0731	Lwfans Teliffon	330	0	330	83	-247		-247
	0803	Costau Teithio	0	0	0	6	6		6
AGWE		Sum:	47,640	-917	46,723	31,214	-15,509	6,633	-8,876
Type	Account	Disgrifiad	Budget 2	Addasiad	Budget 1	Actuals	Gweddill	mrwymadau	
BEID	1268	Cynhailaeth Trydannon-De	0	0	0	102	102		102
	1296	Addasiadau Lles	0	0	0	9,212	9,212		9,212
	1401	Cynnal Tir.-Adran-Cyffredinol	1,920	0	1,920	0	-1,920		-1,920
	1404	Offer A Chelfi - Pryniant	0	0	0	173	173		173
	1425	Coedlannau - Eiddo'R Cyngor	0	0	0	1,320	1,320		1,320
	1440	Contractwr - Taliadau Diogelu	0	0	0	2,383	2,383		2,383
	1501	Glo	0	0	0	17	17		17
	1510	Trydan	1,820	0	1,820	1,972	152		152
	1730	Dwr - Mesurydd	0	0	0	373	373		373
	1731	Dwr - Trethi Cynnwys Traenio	990	0	990	0	-990		-990
	1830	Offer Diffodd Tan-Pensaer	0	0	0	0	0		0
	1840	Nwyddau Glanhau	0	0	0	26	26		26
	1845	Casglu Sbwriel-Preifat	530	0	530	0	-530		-530
	1879	Cyflenwadau Cartref Eraill	0	0	0	4	4	1,000	1,004
BEID		Sum:	5,260	0	5,260	15,582	10,322	1,000	11,322
Type	Account	Disgrifiad	Budget 2	Addasiad	Budget 1	Actuals	Gweddill	mrwymadau	
CTRA	2100	Costau Rhedeg-Cerbydau/Peir	610	0	610	0	-610		-610
	2101	Petrol	0	0	0	198	198		198
	2710	Lwfansau Ceir - Cyffredinol	260	0	260	0	-260	672	412
CTRA		Sum:	870	0	870	198	-672	672	0
Type	Account	Disgrifiad	Budget 2	Addasiad	Budget 1	Actuals	Gweddill	mrwymadau	
DCYF	3100	Offer A Chelfi-Gweithredol	4,110	0	4,110	0	-4,110		-4,110
	3103	Offer Cymorth Gweledol	0	0	0	118	118		118
	3110	Offer Diogelwch	0	0	0	348	348		348
	3130	Offer A Chelfi - Pryniant	0	0	0	5,601	5,601		5,601
	3131	Offer A Chelfi - Cnnl & Chdw	0	0	0	375	375		375
